**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2017**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Martyn Holland - Cysylltiad personol - Eitem Rhaglen Rhif 5<br>Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – Cysylltiad Personol – Eitem rhif 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Richard Mainon – Cysylltiad Personol a Rhagfarnol – Eitem rhif 12 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Tony Thomas – Cysylltiad Personol – Eitem 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill – Cysylltiad Personol - Eitem 5 ar y Rhaglen.<br>Y Cynghorydd Emrys Wynne – Cysylltiad Personol – Eitem 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Mark Young – Cysylltiad Personol – Eitem 5 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2017 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | POLISI CLUDIANT DYSGWYR SIR DDINBYCH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) cadarnhau eu bod wedi darllen a deall yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 5 i'r adroddiad) a*<br><br>*(b) ar ôl ystyried yr wybodaeth o'r adroddiad a'r broses ymgynghori fanwl, a'r mân newidiadau godwyd gan y Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor llawn, yn cymeradwyo mabwysiadu Polisi Cludiant Dysgwyr newydd Sir Ddinbych o 1 Medi 2018.* |
| **6** | RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION BAND B | ***PENDERFYNWYD –*** |

| **Agenda Item No** | **Topic** | **Decision** |
|---|---|---|
| | | *(a) bod y Rhaglen Amlinellol Strategol ddrafft ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif ac Addysg yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru, a*<br><br>*(b) bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **7** | PENODI AELODAU I GYRFF ALLANOL | ***PENDERFYNWYD –*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo penodi aelodau i gyrff allanol fel yr argymhellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad ac eithrio Partneriaeth AHNE Bryniau Clwyd; Grŵp Gweithredu Lleol Sir Ddinbych Cadwyn Clwyd; Hosbis Cyndeyrn, Llanelwy (Ymddiriedolaeth), a Thribiwnlys Prisio Cymru, lle byddai'r penodiadau iddynt trwy benderfyniad wedi'i ddirprwyo yn dilyn ymgynghori pellach gydag aelodau mewn perthynas â'r penodiadau hynny.* |
| **8** | STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU | ***PENDERFYNWYD –*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Rheoli Asedau.* |
| **9** | GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL - CYLCH GORCHWYL | ***PENDERFYNWYD -*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y Grŵp Buddsoddi Cyfalaf fel y manylwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.* |
| **10** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni, a*<br><br>*(b) Cymeradwyo trosglwyddo £653k o'r tanwariant Corfforaethol i'r Gronfa Blaenoriaethau Corfforaethol Dros Ben newydd er mwyn helpu gyda darpariaeth* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *gychwynnol y Blaenoriaethau Corfforaethol a oedd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.* |
| **11** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **12** | CASTELL BODELWYDDAN | ***PENDERFYNWYD –***<br><br>*(a) Bod y Cyngor yn parhau â thrafodaethau gyda thrydydd parti a enwyd ar gyfer gwerthu'r rhydd-ddaliad gyda meddiant gwag;*<br><br>*(b) Trafod telerau ar gyfer gwaredu rhydd-ddaliad Gwesty'r Bodelwyddan Castle Hotel (fel sydd wedi'i liwio mewn glas ar gynllun 2 sydd ynghlwm i'r adroddiad), i'r trydydd parti a enwyd am y swm a amlinellwyd yn yr adroddiad;*<br><br>*(c) Trafod telerau ar gyfer gwaredu rhydd-ddaliad i drydydd parti a enwyd fel rhan o Ystâd Castell Bodelwyddan, gan gynnwys adeiladau Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan (BCT), maes parcio, gerddi, ardal ddigwyddiadau a'r coetir (sydd ar hyn o bryd yn destun prydles 125 mlynedd) i BCT) am y swm a amlinellwyd o fewn yr adroddiad;*<br><br>*(d) I'r Cyngor gadw'r parcdir presennol, gan gynnwys ffosydd o'r RhB1af a maes parcio grascrit ynghyd â phrydles 125 mlynedd o'r coetir. Bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu cynnwys gan y Gwasanaethau Cefn Gwlad fel Parc Gwledig gyda mynediad i'r cyhoedd;*<br><br>*(e) Cadw'r tir amaethyddol fel rhan o Ystâd Amaethyddol y Cyngor, a* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(f)* *bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les sydd ynghlwm i'r adroddiad fel rhan o'i ystyriaethau.* |